PWYLLGOR SAFONAU

DYDD LLUN, 12 MEHEFIN 2023

PRESENNOL M. Dodd (Cadeirydd) (P)

Aelodau Annibynnol:
C. Davies (H) D. Evans(P) J. James(P) F. Phillips(H)

Aelod Cymunedol:
Y Cynghorydd P. Rogers (H)

Cynghorwyr:
B.W. Jones (H)

Hefyd yn bresennol:
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith (P)
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol (P)
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (P)
S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aelodau (H)
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd Aelodau (P)

[P = Presennol yn Neuadd y Sir. H = hirbell drwy Zoom]

Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin ac o bell - 10.00 yb - 12.00 yp

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd G.B. Thomas.

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Y Cynghorydd Rob James	Dyletswyddau Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 5;	Arweinydd y Grŵp Llafur ac awdur adroddiad Arweinydd y Grŵp.

3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR GOFNODION CYFARFOD A GYNHALWYD AR:

3.1. 14EG CHWEFROR 2023;

Diolchodd yr aelodau i Swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd am gywirdeb y cofnodion oedd yn ymwneud â'r gwrandawiadau diweddar.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2023 yn gywir.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

3.2. 3YDD EBRILL 2023.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 3 Ebrill 2023 yn gywir.

4. DIWEDDARIAD AR Y CAMAU GWEITHREDU.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i gofnod camau gweithredu a oedd yn amlinellu'r camau gweithredu amrywiol a gwblhawyd, a'r rhai sy'n parhau, a oedd wedi codi ers ei gyfarfod ar 12 Rhagfyr 2022.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y diweddariad ar y camau gweithredu yn cael ei dderbyn a bod y camau gweithredu a gwblhawyd yn cael eu dileu o'r cofnod ar ôl iddynt gael eu hadrodd i'r Pwyllgor.

5. DYLETSWYDDAU ARWEINWYR GRWPIAU GWLEIDYDDOL O DAN DDEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021.

(NODER: Gan iddo ddatgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, nid oedd y Cynghorydd R. James yn bresennol wrth ystyried yr eitem hon nac wrth bleidleisio arni.

Yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, bu'r Pwyllgor yn ystyried a oedd yr adroddiadau a gafwyd gan Arweinwyr tri grŵp gwleidyddol y Cyngor yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan Ddeddf 2021 o ran y canlynol:

- cymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau eu grwpiau;
- cydweithredu â Phwyllgor Safonau'r Cyngor wrth arfer swyddogaethau'r Pwyllgor Safonau.

Mynegwyd siom ynghylch canran aelodau grŵp Plaid Cymru a'r grŵp annibynnol a oedd wedi mynychu hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad ac roedd y Cadeirydd wedi cytuno i gyfleu hyn i Arweinwyr y Grwpiau. Pwysleisiwyd pwysigrwydd mynychu sesiynau o'r fath, i gynghorwyr sydd newydd eu hethol a chynghorwyr sy'n dychwelyd. Croesawyd y ffaith bod o grŵp Llafur yn monitro cyfrifon cyfryngau cymdeithasol y cynghorwyr i sicrhau bod yr holl negeseuon ar dudalennau personol a phroffesiynol yn cwrdd â'r safonau disgwyliedig.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn bod yr adroddiadau a gyflwynwyd gan Arweinwyr y Grwpiau yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

6. ADOLYGIAD O'R POLISI DATGELU CAMARFER.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad lle dywedwyd bod swyddogion wedi adolygu Polisi Datgelu Camarfer y Cyngor ac, ar wahân i newidiadau a wnaed i ddiweddaru enwau a manylion cyswllt unigolion, nid ystyriwyd bod angen unrhyw

newidiadau eraill gan na fu unrhyw ddatblygiadau mewn deddfwriaeth, cyfraith achosion neu ganllawiau, a oedd yn golygu nad oedd angen gwneud unrhyw ddiwygiadau.

Nodwyd, rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, fod cyfanswm o 3 cŵyn datgelu camarfer wedi'u cofnodi, ac yr ymchwiliwyd i bob un ohonynt a bod yr ymchwiliadau wedi dod i ben. Roedd un gŵyn datgelu camarfer a dderbyniwyd yn 2021/2022 wedi'i dwyn ymlaen i'r cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn. Roedd y broses o ymchwilio i'r gŵyn hon hefyd wedi dod i ben.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Bolisi Datgelu Camarfer diweddaredig y Cyngor.

7. ADRODDIAD BLYNYDDOL I'R CYNGOR LLAWN.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried ei Adroddiad Blynyddol drafft ar gyfer 2022/23 a oedd yn manylu ar y gwaith yr oedd wedi'i wneud yn ystod y cyfnod hwnnw. Os caiff ei gymeradwyo, bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Gan gyfeirio at gofnod 5 uchod, nodwyd y byddai'r Arweinwyr Grŵp yn cael eu gwahodd i roi adborth ar y templed a roddwyd iddynt i gwblhau eu hadroddiadau priodol. Awgrymwyd y gellid codi'r mater yng nghyfarfod nesaf yr Arweinwyr Grŵp. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor y trefnwyd i'r mater gael ei ystyried ymhellach yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr a'i fod wedi'i gynnwys yn y Blaengynllun Gwaith arfaethedig [gweler cofnod 10 isod].

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod Adroddiad Blynyddol drafft y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2022/23 yn cael ei fabwysiadu a'i gyflwyno i'r Cyngor.

8. YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR ARGYMHELLION YR ADOLYGIAD ANNIBYNNOL O'R SAFONAU MOESEGOL FFRAMWAITH (ADRODDIAD PENN).

Bu'r Pwyllgor yn ystyried dogfen ymgynghori gan Lywodraeth Cymru yn manylu ar ei hymatebion arfaethedig i'r argymhellion a gynhwysir yn adroddiad Penn a luniwyd yn dilyn adolygiad o'r Fframwaith Safonau Moesegol cyfredol ar gyfer llywodraeth leol a sefydlwyd o dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000. Roedd llawer o'r ddogfen ymgynghori, y gwahoddwyd y Pwyllgor i lunio ei ymatebion ei hun iddi, yn ymwneud â rôl a gweithrediad Panel Dyfarnu Cymru (PDC).

Mewn ymateb i sylw yn ymwneud â'r trothwy ar gyfer datganiadau ynghylch unrhyw rodd, lletygarwch, budd materol neu fantais [Argymhelliad 1] hysbyswyd y Pwyllgor fod Cod Ymddygiad presennol y Cyngor ar gyfer Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig yn nodi, o fewn 28 diwrnod o dderbyn unrhyw rodd, lletygarwch, budd materol neu fantais sy'n werth dros £25, fod yn rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro ynghylch bodolaeth a natur y rhodd, lletygarwch, budd materol neu'r fantais.

Cefnogodd y Pwyllgor yr argymhelliad y dylai hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad [Argymhelliad 7] fod yn orfodol i holl aelodau prif gynghorau a chynghorau cymuned gan gynnwys cynghorwyr a etholwyd am gyfnod dilynol. Mynegwyd y farn y gallai arwain at ostyngiad yn nifer yr achosion a gyfeirir at yr Ombwdsmon a'r Pwyllgorau Safonau wedi hynny.

Cytunodd yr Aelodau i anfon unrhyw sylwadau pellach yn unigol at Reolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol er mwyn iddo allu llunio ymateb i'r ddogfen ymgynghori ar ran y Pwyllgor cyn y dyddiad cau, sef 23 Mehefin 2023.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo ymatebion arfaethedig Llywodraeth Cymru i'r argymhellion a gynhwysir yn adroddiad Penn.

9. ADOLYGU GWEITHDREFNAU GWRANDAWIADAU DISGYBLU.

Yn dilyn cofnod 6 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2022, gwahoddwyd y Pwyllgor i ystyried, yng ngoleuni ei brofiadau diweddar o wrando ar ddau achos a dderbyniwyd gan yr Ombwdsmon, a yw'n dymuno gwneud unrhyw newidiadau i'r weithdrefn ffurfiol a fabwysiadwyd yn y cyfarfod uchod ar gyfer cynnal achosion disgyblu yn erbyn cynghorwyr.

Awgrymodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol y newidiadau canlynol y gallai'r Pwyllgor fod am eu hystyried:

- Uno'r gwrandawiad ystyriaeth cychwynnol a'r adolygiad cyn gwrandawiad i leihau hyd cyffredinol yr achosion (Adrannau 2 a 5 y gweithdrefnau);
- Diwygio'r gweithdrefnau i adlewyrchu'r ffaith y gall y Cynghorydd gael cynrychiolaeth gyfreithiol;
- Diwygio Adran 7 i'w gwneud yn glir y bydd gwrandawiadau terfynol fel arfer yn cael eu clywed yn gyhoeddus;
- Diwygio adran 10 y gweithdrefnau i ddarparu ar gyfer gofyn cwestiynau i swyddog ymchwilio'r Ombwdsmon (pan nad yw'r swyddog hwnnw hefyd yn dyst yn yr achos);
- Cynnwys datganiad cyffredinol i nodi mai bwriad y weithdrefn yw darparu cyfiawnder a thegwch i'r cynghorydd sy'n destun yr ymchwiliad ac unrhyw bartïon eraill dan sylw, ac mai'r bwriad hefyd yw sicrhau budd ehangach y cyhoedd drwy gael proses feirniadu agored a theg;
- Cynnwys datganiad cyffredinol i nodi y gall y Pwyllgor adolygu'r weithdrefn mewn unrhyw achos, gan ystyried budd y cyhoedd a'r angen am broses feirniadu gymesur;

Roedd yr Aelodau yn cefnogi'r newidiadau a awgrymwyd, yn arbennig yr angen i leihau hyd yr achosion ar gyfer yr holl bartïon dan sylw, gan gynnwys y Pwyllgor Safonau ei hun, a chytuno ar ddyddiadau a bennwyd ymlaen llaw ar y cychwyn lle bo hynny'n bosibl.

Er y mynegwyd y farn y byddai'n well pe bai pob parti a oedd yn rhan o wrandawiad yn gallu bod yn bresennol yn bersonol yn hytrach nag o bell, nid oedd hyn yn orfodol o dan y ddeddfwriaeth bresennol.

Diolchwyd i Reolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol am ei gymorth a'i gyfarwyddyd yn ystod y gwrandawiadau diweddar.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod yr awgrymiadau a amlinellir uchod yn cael eu cymeradwyo a'u cynnwys mewn dogfen Gweithdrefnau Gwrandawiadau Disgyblu ddiwygiedig i'w hystyried yn y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 18 Medi 2023.

10. BLAENGYNLLUN GWAITH.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried ei Flaenraglen Waith Flynyddol ar gyfer 2023/24 a oedd yn manylu ar yr adroddiadau i'w cyflwyno a'u hystyried mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. Nodwyd nad oedd y Flaenraglen Waith yn cynnwys cyfeiriad at faterion fel gollyngiadau ac adroddiadau disgyblu, gan nad oedd yn bosibl rhagweld pryd y byddai'r rhain yn ymddangos ar agenda cyfarfod, os o gwbl.

Cyfeiriwyd at y ffaith bod ceisiadau am ollyngiad gan gynghorwyr yn ymddangos yn aml ar agenda'r Pwyllgor ac awgrymwyd y dylid ychwanegu nodyn at y Flaenraglen Waith i dynnu sylw at hyn.

Mewn ymateb i ymholiad, cytunodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol i gynnwys adroddiad ar y Polisi Datrys Lleol ar gyfer cwynion anffurfiol am gynghorwyr ar y Flaenraglen Waith ar gyfer cyfarfod mis Rhagfyr.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod Blaenraglen Waith Ddrafft 2023/24 yn cael ei chymeradwyo yn amodol ar gynnwys y materion a godwyd a'r Gweithdrefnau Gwrandawiadau Disgyblu diwygiedig drafft y cyfeiriwyd atynt yng nghofnod 9.

11. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG, BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972

Nid oedd dim materion brys i'w trafod.

_____ _____

CHAIR **DATE**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf